Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

22 Gorffennaf 2026

Yn bresennol
Y Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mr H Hogg a'r Cynghorydd V Thomas.

Roedd y Cynghorydd M James yn cael anawsterau technegol ac ymunodd â'r cyfarfod cyn ystyried adroddiad Fforwm y Gweithwyr (gweler cofnod 7).

Swyddogion yn bresennol
Ceri Kwiecinski, Astari (Archwilio Mewnol), Y Prif Weithredwr, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Ar-lein: 10.00am -11.50am)

1. Penodi Cadeirydd

Agorodd Cadeirydd yr Awdurdod, Dr M Havard, y cyfarfod a dywedodd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am swydd Cadeirydd y Pwyllgor, sef y Cynghorydd C George.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Thomas, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd C George yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

Wedyn cymerodd y Cynghorydd George y Gadair.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dywedwyd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am swydd y Dirprwy Gadeirydd, sef Mr J Hogg.

Ar gynnig y Cynghorydd George, a eiliwyd gan Dr Havard, **penderfynwyd** ethol Mr J Hogg yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Ms H Gwenllian, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd M Williams.

4. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant**.**

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2026 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd George a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2026.

6. Log Gweithredu

Dywedodd y Prif Weithredwr bod Traeth Mawr (cam gweithredu 1114) ar agor yn rhannol, ac mai'r gobaith oedd y byddai'r toiledau ar agor yr wythnos ganlynol neu yn fuan wedi hynny. Y bwriad oedd cynnal agoriad swyddogol ddiwedd mis Medi.

Nodwyd y diweddariadau oedd yn weddill yn y Log Gweithredu.

7. Fforwm y Gweithwyr

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Fforwm y Gweithwyr a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2026 er gwybodaeth.

Dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod ei bod wedi mynychu'r cyfarfod fel arsylwr. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Achredu Cyflog Byw, a nodir yn y Log Gweithredu (gweler cofnod 6), atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn bodloni'r Safon, ac mai'r gobaith oedd symud hyn ymlaen cyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd.

8. Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2026 er gwybodaeth.

Dywedodd un Aelod bod y cofnodion yn nodi llawer iawn o waith yn y maes hwn, gan ychwanegu mai'r cwestiwn allweddol oedd yn codi oedd a oedd y staff yn teimlo'n ddiogel yn gweithio i'r Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt sawl llwybr i fynegi eu pryderon. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai hwn fod yn gwestiwn i'w ofyn i'r staff drwy Fforwm y Gweithwyr.

Holodd Aelod arall am is-grŵp a sefydlwyd i fonitro digwyddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol (gweler Cofnod 6). Atebodd y Prif Weithredwr bod y grŵp gorchwyl a gorffen hwn wedi canolbwyntio ar achos o farwolaeth a ddigwyddodd ar dir y tu allan i berchnogaeth yr Awdurdod, ac wedi ystyried a ellid dysgu unrhyw wersi o'r digwyddiad, gan ddod i'r casgliad bod prosesau'r Awdurdod yn ddigonol. Ychwanegodd bod y swyddogion

wedi bod yn rhan o'r grŵp cenedlaethol ar Ddiogelwch Ymwelwyr yng Nghefn Gwlad ers blynyddoedd lawer.

Nodwyd.

9. Adroddiad Archwilio Mewnol

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ceri Kwiecinski o Astari, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a gyflwynodd yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2025/26. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau eu gwaith archwilio mewnol ar y system lywodraethu, rheoli risg, a mesurau rheolaeth yr Awdurdod, ac yn rhan o'r fframwaith a gynlluniwyd i lywio'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Felly, roedd yr adroddiad yn rhan allweddol o gylch sicrwydd yr Awdurdod ac a ddefnyddir i lywio a diweddaru proffil risg yr Awdurdod.

Roedd Astari wedi cwblhau saith adolygiad yn ystod y flwyddyn, ac roedd pump ohonynt wedi rhoi sicrwydd sylweddol a dau sicrwydd rhesymol; un o'r ddau sicrwydd rhesymol oedd yr adolygiad Dilynol ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ganddynt, ac yn amodol ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn eu hadroddiadau archwilio mewnol, bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheolaeth digonol ac effeithiol.

Roedd yr Aelodau wedi llongyfarch y staff am adroddiad da ac am y gwelliannau oedd wedi'u rhoi ar waith, a gofynnwyd am gyfleu hyn i'r staff. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai'n gwneud hynny, a dymunai ddiolch yn arbennig i'r Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth fu'n gymorth mawr yn y broses. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch meincnodi perfformiad â Pharciau Cenedlaethol eraill, dywedodd bod hyn yn cael ei wneud lle bo'n bosibl.

Nodwyd.

10. Log Gweithredu ar gyfer yr Archwiliad Perfformiad Allanol a'r Archwiliad Mewnol (Yn dod i ben 30 Mai 2026)

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu.

Nodwyd, yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol pan gytunwyd ar ddyddiadau gweithredu diwygiedig, bod y lefelau blaenoriaeth mewnol ar gyfer camau gweithredu Archwilio Cymru bellach wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Rheoli.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo cau'r cam gweithredu archwilio mewnol oedd yn ymwneud â gwaith dilynol ar gwblhau hyfforddiant o ganlyniad i fethiannau efelychu Gwe-rwydo; nodwyd ffyrdd amgen o fynd i'r afael â'r argymhelliad oedd yn dderbyniol i'r Archwilwyr yn yr adroddiad. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau gymeradwyo dyddiad gweithredu diwygiedig ar gyfer y cam gweithredu ar adolygu defnyddio cerbydau fflyd ar draws yr Awdurdod i ganiatáu i 12 mis o ddata telematig gael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch clustnodi lifftiau sy'n dod o fewn gofynion profi LOLER (Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1988), dywedodd y swyddog bod asesiad wedi'i gynnal fel rhan o'r drefn brofi flynyddol ac y byddai lifftiau sy'n dod o fewn y gofynion yn cael eu hychwanegu at y rhaglenni cynnal a chadw perthnasol.

Mewn ymateb i'r camau gweithredu ar hyfforddiant yn dilyn efelychiadau Gwe-rwydo, gofynnodd Aelod a oedd y cyfryw efelychiadau yn cael eu hanfon at yr Aelodau yn ogystal. Atebodd y swyddog bod yr Aelodau wedi'u cynnwys yn y gorffennol, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw bod yr Aelodau yn defnyddio negeseuon e-bost yr Awdurdod yn hytrach na negeseuon e-bost personol ar gyfer gohebiaeth ac ar hyfforddiant ar seiberddiogelwch i'r Aelodau ac i'r staff. Ychwanegodd y Cadeirydd bod pwysigrwydd ymgymryd â'r cyfryw hyfforddiant wedi'i amlygu mewn trafodaethau ar Adolygiadau Datblygu Personol, ac awgrymwyd y dylid trefnu hyfforddiant pellach i'r Aelodau yn y maes pwysig hwn.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am y gyfradd ymateb i'r arolwg o gyfranogwyr a gwirfoddolwyr y prosiect a gynhaliwyd gan y tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant y cyfeirir ato ar dudalen 27 o'r adroddiad, a chytunodd y swyddogion i ganfod hyn.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan Mr Hogg, **penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion canlynol:

a) Cau Camau Gweithredu Archwilio Mewnol - 2025/26 - Parhad TG ac Adfer ar ôl Trychineb R3 (Astari 3190] [Cyf. PS: 3935]; a
b) dyddiad gweithredu diwygiedig o 31/03/27 ar gyfer Camau Gweithredu Archwilio Mewnol ar adolygu'r defnydd o gerbydau fflyd 2024/25 - Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio R2 (Astari 2490) [Cyfeirnod PS: 3661].

11. Adroddiad ar Berfformiad Llythyr Grant Strategol Llywodraeth Cymru 2025-26

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod, yn ôl y gofynion newydd ar adrodd, gyflwyno gwybodaeth am berfformiad yn erbyn Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru a nodir yn y Llythyr Grant Strategol blynyddol a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yr adroddiad i'r Pwyllgor oedd y cyflwyniad a wnaed fis Mai 2026 ar gyfer yr adroddiad blwyddyn lawn am 2025/26, oedd yn crynhoi'r cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth allweddol, sef yr amgylchedd, pobl, a lleoedd, a llywodraethu a chydweithio.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld bod yr adroddiad yn tynnu sylw at rôl allweddol yr Awdurdod o ran cyflawni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Nodwyd hefyd y byddai'r data sylfaenol a gasglwyd yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen.

Gwnaed awgrymiadau ynghylch cynnwys gwybodaeth am brosiect a gynhaliwyd gydag LNG South Hook, a hefyd cyfeirio at adroddiadau archwilio mewnol cadarnhaol. Atebodd swyddogion y gellid ystyried eu cynnwys yn yr adroddiad nesaf.

Nodwyd.

[Cynigiodd Dr Havard ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem ganlynol, gan fod rhaid iddi fynychu cyfarfod arall.]

12. Adroddiad Gwasanaethau Pobl

Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar faterion Iechyd a Diogelwch gan gynnwys damweiniau a digwyddiadau rhwng Ebrill a Mehefin 2026, diweddariad ar bolisïau, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o weithredu Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, absenoldeb salwch staff, hyfforddiant a datblygu, gwirfoddoli a materion datblygu'r Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y swyddog bod gan yr Awdurdod gyfnod prawf o 6 mis oedd yn cael ei reoli'n drylwyr i sicrhau bod staff yn addas ar gyfer eu swydd yn yr Awdurdod. Hefyd dywedwyd bod rhaglen gymorth i'r gweithwyr, oedd yn cynnwys mynediad at gwnsela, mewn lle i gefnogi'r staff oedd yn dioddef straen. I'r rhai oedd yn sâl yn y tymor hir, roedd Rheolwyr yn cadw mewn cysylltiad â hwy, a'u galluogi i ddychwelyd i'r gwaith yn raddol.

Nodwyd.

13. Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26

Dywedwyd bod y datganiad cyfrifon drafft wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth yn unig, ac y byddai'n cael ei adolygu ymhellach,

gan gynnwys gwneud gwelliannau a chywiriadau i'r testun lle bo gofyn, cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru. Y gobaith oedd y byddai hynny yn digwydd cyn 31 Gorffennaf 2026.

Nodwyd bod yr Awdurdod yn adrodd am warged net o £380k, yn erbyn diffyg cyllidebol o £567k. Er bod y costau gwasanaeth net yn £557k yn uwch na'r gyllideb, a achoswyd yn bennaf gan dâl am amhariad ar eiddo o £785k, cafodd hyn ei wrthbwyso gan incwm uwch na'r disgwyl, gan gynnwys refeniw a chyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a pherfformiad cryf o'r gweithgareddau cynhyrchu incwm.

Hefyd nodwyd yn yr adroddiad nad oedd y Rhaglen Gyfalaf wedi'i chyflawni'n llawn yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfuniad o heriau adnoddau a chyflawni. O ganlyniad, roedd sawl prosiect wedi'u hailbroffilio, ac y byddent yn cael eu cario ymlaen i'w cwblhau fel rhan o raglen gyfalaf yr Awdurdod yn y dyfodol. Y gobaith oedd y byddai darlun cliriach o'r blaenoriaethau yn dod yn eglur wrth symud ymlaen fyddai'n cyd-fynd â'r adnoddau fydd ar gael.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid a Chodi Arian am ei gwaith caled wrth gynhyrchu'r cyfrifon.

Nodwyd.

14. Perfformiad y Gyllideb yn Chwarter 1

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian bod perfformiad cyffredinol y flwyddyn 2026/27 yn unol â'r targed. Roedd yr incwm ar y pryd o dan y gyllideb, gan nad oedd y grantiau wedi dod i law yn ôl y disgwyl, ac nad oedd y cynnydd a ragwelwyd mewn ffioedd cynllunio wedi'i wireddu, a bod incwm y meysydd parcio yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn fater pryder i'r swyddogion, ac roedd y ffigurau o fewn y disgwyliadau cyffredinol.

Nodwyd.

15. Eithrio'r Cyhoedd

Ar gynnig y Cynghorydd George, a eiliwyd gan y Cynghorydd Thomas, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

16. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg

Roedd yr adroddiad yn gyfle i'r Aelodau wneud sylwadau a thrafod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risg, yr Adroddiad Sicrwydd Ail

Linell, a'r Datganiad ar y Parodrwydd i Dderbyn Risg. Hefyd cyflwynwyd y Camau Gweithredu yn y Dyfodol i Reoli Risg.

Nodwyd.

17. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwella Parhaus

Penderfynwyd nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**